# Cynllun Taliad Sylfaenol 2022

## Tystysgrif gan gyfrifydd neu gyfreithiwr i gadarnhau statws Ffermwr Ifanc neu Newydd-ddyfodiad mewn partneriaeth a/neu bersonau cyfreithiol

### 1) Enw Busnes y Cwsmer

Rhaid i'r cyfrifydd neu'r cyfreithwyr roi manylion y cwsmer a dileu'r geiriad yn ôl y gofyn

### 2) Cadarnhau'r Wybodaeth gafodd ei Datgan gan y Ffermwr Ifanc/Newydd-ddyfodiad

Rhaid i'r cyfrifydd neu'r cyfreithiwr roi 'X' yn y blychau perthnasol o dan "Cadarnhau'r Wybodaeth a Gafodd ei Datgan gan y Ffermwr Ifanc/Newydd-ddyfodiad" yn ôl y gofyn.

### 3) Pennaeth(iaid) y Daliad

Rhaid i'r cyfrifydd neu'r cyfreithiwr roi'r wybodaeth ganlynol, gan ddefnyddio'r dogfennau cyfreithiol a ddarparwyd:

a) Enwau'r holl unigolion sy'n rheoli'r busnes amaethyddol.

b) Canran y cyfrannau sy'n eiddo i'r bobl a enwir yn 3a (neu mewn partneriaeth, eu canran o'r elw) neu ganran eu pleidleisiau.

c) Manylion unrhyw gytundebau cyfreithiol sydd yn eu lle i alluogi'r bobl a enwir yn 3a i bleidleisio gyda'i gilydd.

d) Rhestr o'r holl ddogfennau sydd wedi'u defnyddio i roi'r manylion yn 3a i 3c.

### 4) Gweithgarwch Amaethyddol – ffermwyr 'newydd' yn unig

Llenwch yr adran hon os ydy'r ymgeisydd yn gofyn am hawliau o'r Gronfa Genedlaethol fel ffermwr newydd.

Gan ddefnyddio'r dogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, rhaid i'r cyfrifydd neu'r cyfreithiwr nodi'r dyddiad pan ddechreuodd y busnes ei weithgarwch amaethyddol. Dyddiad dechrau'r busnes fydd hyn – oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu profi y gwnaeth gweithgarwch amaethyddol y busnes ddechrau wedi hynny. Os felly, dylid nodi dyddiad dechrau'r gweithgarwch amaethyddol.

Hefyd, rhestrwch unrhyw ddogfennau sydd wedi'u defnyddio i roi'r manylion yn 4.

Cyfrifoldeb y ffermwr yw sicrhau bod y dogfennau y mae'n eu rhoi i'r cyfrifydd yn gyfoes a chywir.

## 5) Busnes Amaethyddol – ffermwyr ifanc yn unig

Llenwch yr adran hon os ydy'r ymgeisydd yn ffermwr ifanc sy'n gofyn am hawliau newydd neu am y taliad ffermwyr ifanc. Gan ddefnyddio'r dogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, rhaid i'r cyfrifydd neu'r cyfreithiwr nodi'r dyddiad pan sefydlodd yr ymgeisydd y busnes amaethyddol neu gael rheolaeth arno.

Hefyd, rhestrwch unrhyw ddogfennau sydd wedi'u defnyddio i roi'r manylion yn 4.

Cyfrifoldeb y ffermwr yw sicrhau bod y dogfennau y mae'n eu rhoi i'r cyfrifydd yn gyfoes a chywir.

## 6) Datganiad ymwadu atebolrwydd y cyfrifydd/cyfreithiwr (opsiynol):

Caiff y cyfrifydd neu'r cyfreithiwr roi ei ymwadiad ei hun neu ymwadiad y cwmni yn y fan hon.

## 7) Datganiadau

Rhaid i'r cyfrifydd neu'r cyfreithiwr lofnodi a llenwi'r adran â'i fanylion neu fanylion ei gwmni

## Tystiolaeth

Bydd y math o dystiolaeth y bydd angen i ymgeisydd ei rhoi i'w gyfrifydd neu ei gyfreithiwr i gefnogi'i gais yn dibynnu a yw'r busnes yn bartneriaeth neu'n berson cyfreithiol.

Mae'r tablau isod yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o ddogfennau y caiff ymgeisydd eu dangos i'r cyfrifydd neu'r cyfreithiwr i brofi ei fod yn gymwys. Nid yw hon yn rhestr gyflawn:

### Partneriaeth

| | |
|---|---|
| 3)Pennaeth y Daliad | Un o'r canlynol: |
| I brofi bod y busnes o dan reolaeth yr ymgeisydd | • cytundeb partneriaeth sy'n dangos y partneriaid a chanran eu cyfrannau/pleidleisiau ac os bu newid, y gwahaniaeth rhyngddo â'r ddogfen |

| | |
|---|---|
| | bartneriaeth flaenorol gan ddangos y newidiadau i'r ddogfen wreiddiol.<br>• cytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n dangos cyfrannau'r busnes<br>• cyfrifon y bartneriaeth i ddangos pwy sy'n berchen ar ba gyfran o'r bartneriaeth<br>• Cyfrifon blynyddol sy'n enwi'r ymgeiswyr a nifer eu cyfrannau/pleidleisiau. |
| 4) Gweithgarwch Amaethyddol (ffermwr newydd)<br><br>Dyddiad dechrau'r busnes amaethyddol | Un o'r canlynol:<br><br>• Gweithredoedd y tir neu'r gofrestr teitlau sy'n dangos dyddiad prynu'r tir amaethyddol<br>• Cytundeb tenantiaeth gyda dyddiad dechrau<br>• Dogfen TAW/treth incwm yn dangos y dyddiad cofrestru<br>• Tystiolaeth eich bod wedi etifeddu'r tir, gan ddangos y dyddiad<br>• Cyfrif banc y busnes neu gytundeb benthyciad i'r busnes, sy'n cynnwys dyddiad sefydlu'r busnes<br>• Cyfrifon busnes blynyddol gan gynnwys dyddiad eu cynhyrchu am y tro cyntaf. |
| 5) Busnes Amaethyddol (ffermwr ifanc)<br><br>Y dyddiad pan sefydlodd yr ymgeisydd y busnes amaethyddol neu pryd y daeth o dan ei reolaeth | Un o'r canlynol:<br><br>• Cytundeb partneriaeth sy'n dangos dyddiad y cytundeb, ac os bu newid, y gwahaniaeth rhyngddo â'r ddogfen bartneriaeth flaenorol gan ddangos y newidiadau i'r ddogfen wreiddiol<br>• Cytundeb sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n dangos dyddiad sefydlu cyfrannau'r busnes amaethyddol<br>• Cyfrifon y bartneriaeth sy'n dangos dyddiad sefydlu busnes yr ymgeisydd<br>• Cyfrifon busnes blynyddol sy'n cynnwys dyddiad eu cynhyrchu am y tro cyntaf<br>• Cyfrifon blynyddol sy'n cynnwys dyddiad eu cynhyrchu am y tro cyntaf. |

## Person Cyfreithiol

| | |
|---|---|
| 3)Pennaeth y Daliad<br><br>I brofi bod y busnes o dan reolaeth yr ymgeisydd | Un o'r canlynol:<br><br>• Dogfen ag iddi rym cyfreithiol sy'n dangos cyfrannau'r busnes amaethyddol. |
| 4) Gweithgarwch Amaethyddol (ffermwr newydd)<br><br>Dyddiad dechrau'r busnes amaethyddol | Un o'r canlynol:<br><br>• Dogfen ag iddi rym cyfreithiol sy'n dangos dyddiad dechrau'r busnes amaethyddol. |
| 5) Busnes Amaethyddol (ffermwr ifanc)<br><br>Y dyddiad pan sefydlodd yr ymgeisydd y busnes amaethyddol neu pryd y daeth o dan ei reolaeth | Un o'r canlynol:<br><br>• Dogfen ag iddi rym cyfreithiol sy'n dangos y dyddiad pryd y daeth y busnes amaethyddol o dan reolaeth yr ymgeisydd. |

Bydd Taliadau Gwledig Cymru yn archwilio'u cofnodion i weld a oes tystiolaeth y bu'r ymgeisydd yn rheoli busnes amaethyddol blaenorol. Nid yw cynnal gweithgarwch amaethyddol fel gweithiwr cyflog i fusnes neu fel contractwr amaethyddol yn cyfrif fel rheoli busnes amaethyddol.